

# The Romans Y Rhufeiniaid

in the Dulais Valley

yng Nghwm Dulais



Today the area between Banwen and Coelbren is a patchwork of boggy fields. Dotted with trees and wildflowers and full of birdsong, it is hard to imagine that nearly 2000 years ago this was on the frontline of the Roman conquest of Wales.

Erbyn heddiw, mae'r ardal rhwng Banwen a Choelbren yn glytwaith o gaeau corsiog. Mae ambell goeden yn tyfu yma a thraw ymhlith y blodau gwyllt ac mae'n lle da i wrando ar gân yr adar. Mae'n anodd credu i'r lle chwarae rhan mor bwysig pan ddaeth y Rhufeiniaid i oresgyn Cymru.

## Keeping the peace

The Neath and Dulais Valleys would have been important communication routes in Roman times, which made this a strategically important location. Remains of a Roman fort and camp have been found nearby. The temporary marching camp probably dates from the campaigns against the Silures. The fort, known as the Gaer, was probably built around the same time as a permanent base. It would have held over 400 troops and seems to have been in use for about 50 years. By then this area was peaceful so the soldiers were sent north to the new frontline on Hadrian's Wall.

## Cadw'r heddwch

Roedd Cymoedd Nedd a Dulais yn ffordd tramwy pwysig yn Oes y Rhufeiniaid ac felly roedd hon yn ardal strategol bwysig. Canfuwyd olion caer a gweryll Rhufeinig gerllaw. Mae'n fwy na thebyg bod y gweryll dros dro wedi'i sefydlu adeg yr ymgyrchoedd yn erbyn y Silwriaid. Credir bod y Gaer wedi'i chodi tua'r un cyfnod i fod yn ganolfan barhaol. Byddai dros 400 o filwyr yn byw yno a chredir ei bod wedi'i defnyddio am ryw 50 mlynedd. Erbyn hynny, roedd yr ardal hon yn heddychlon ac felly anfonwyd y milwyr i ogledd Lloegr i wasanaethu yn ardal Mur Hadrian.

## On the road

Good roads were crucial for the Romans. They allowed speedy communications and enabled troops to move quickly around the country to sort out any unrest. Sarn Helen was built to connect the forts at Neath and Brecon. It ran along the hilltops above the eastern side of the Dulais Valley before heading north east into the Brecon Beacons. The route through Banwen is still used today and is still called Roman Road.

## Ar y ffordd


Roedd ffordd da yn hanfodol i'r Rhufeiniaid. Roedden nhw'n llwybrau cyfathrebu hwylus ac yn golygu bod milwyr yn gallu symud yn gyflym o'r naill le i'r llall os oedd gwrthdaro. Adeiladwyd Sarn Helen i gysylltu'r ceirydd yng Nghastell-nedd ac Aberhonddu. Roedd yn rhedeg ar hyd y brynau uwchlaw ochr ddwyreiniol Cwm Dulais ac yna tua'r gogledd ddwyrain i Fannau Brycheiniog. Mae'r ffordd trwy Fanwen yn cael ei defnyddio hyd heddiw ac yn dal i gael ei galw'n Sarn Helen neu'n Heol Rufeinig.

## Restless natives

South Wales was the territory of the Silures tribe at the time of the Roman invasion of Britain. The hostile terrain helped the Silures resist conquest for around 30 years. Eventually a series of campaigns in 74-78AD brought the Silures people under Roman control.

## Silwriaid ffyrnig

Llwyth y Silwriaid oedd yn byw yn ne Cymru pan ddaeth y Rhufeiniaid i Brydain. Gyda chymorth y tiroedd mynyddig, llwyddodd y Silwriaid i amddiffyn eu hardal am ryw 30 mlynedd. Yn y pen draw, ar ôl cyfres o gyrchoedd yn 74-78OC cipiodd y Rhufeiniaid reolaeth dros y Silwriaid.



## Exploring the Dulais Valley

This is one of the famous 'valleys' of the south Wales coalfield. Thousands of men once worked the difficult anthracite seams deep below ground, but the valley's story did not start with coal. Bronze Age farmers, Roman soldiers and medieval monks have all left their mark here.

Discover their fascinating stories along the Dulais Valley Heritage Trail.

you are here  
rydych chi yma



## Crwydro Cwm Dulais

Dyma un o 'gymoedd' enwog maes glo'r de. Slawer dydd, roedd miloedd o ddynion yn gweithio'r gwythiennau glo carreg anodd eu trin o dan y ddaear. Ond nid y glo oedd dechrau'r stori. Mae olion ffermwyr yr Oes Efydd, milwyr Rhufeinig a mynachod o'r Oesoedd Canol oll i'w gweld yma.

Cewch ddysgu mwy am eu storïau difyr ar Daith Dreftadaeth Cwm Dulais.



For more information look out for the Heritage Trail leaflet or visit our website:

Os hoffech wybod rhagor, holwch am daflen y Daith Dreftadaeth neu ewch i'n gwefan:

[www.dulaisvalley.org.uk/heritagetrail](http://www.dulaisvalley.org.uk/heritagetrail)

Discover over 2000 years of history in 20 kilometres  
Cewch weld dros 2000 o flynyddoedd o hanes mewn 20 cilometr